GIG CYMRU NHS WALES | Cyd-bwyllgor Comisiynu Joint Commissioning Committee

# Cofnodion wedi'u cadarnhau o
# Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (CPCh) CBCGC
# 02 Gorffennaf 2026 am 13:30 o'r gloch
# Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau:** | | |
| Paul Worthington | (PW) | Cadeirydd CPCh ac Aelod Lleyg |
| Ian Green | (IG) | Aelod Lleyg a Chadeirydd Annibynnol y Cyd-bwyllgor |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg |
| | | |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Juliet Brown | (JB) | Prif Gomisiynydd |
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor |
| George Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth |
| | (GK) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Gwerth |
| Sue O'Leary | (SO'L) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans a Rhaglenni Cenedlaethol |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol |
| Stacey Taylor | (ST) | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth/Dirprwy Brif Gomisiynydd |
| | | |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| | | |
| **Arsylwyr:** | | |
| Matt Edwards | (ME) | Ysgrifennydd Cynorthwyol y Pwyllgor – Llywodraethiant a Busnes |
| | | |
| **Cofnodion:** | | |
| Maxine Evans | (MEv) | Swyddog Sicrwydd a Risg |

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 o'r gloch

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| CPCh26/020 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed y cyflwyniadau. Cadarnhawyd bod y cyfarfod, a gynhaliwyd trwy Microsoft Teams, yn gwneud cworwm ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cyfarfod gael ei recordio at ddibenion gweinyddol. |
| CPCh26/021 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb fel y manylwyd uchod. Nodwyd absenoldeb cynrychiolaeth Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd (BI), a chydnabuwyd bod angen mwy o gysondeb o ran presenoldeb y Prif Weithredwr mewn Is-Bwyllgorau. |
| CPCh26/022 | **1.3 Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai oedd yn bresennol ynghylch pwysigrwydd cofnodi datganiadau o fuddiant. |
| CPCh26/023 | **1.4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2026**<br>**Cymeradwywyd** cofnodion 28 Ebrill 2026 fel cofnod gwir a chywir. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | |
| CPCh26/024 | **1.5 Cofnod o'r Camau Gweithredu**<br>Derbyniwyd y Cofnod o'r Camau Gweithredu. **Nododd** yr aelodau:<br>• **CPCh25/012** – Gofynion hyfforddi statudol/gorfodol ar gyfer Aelodau Lleyg. Mae trafodaethau diweddar gydag Arweinydd Dysgu a Datblygu BIPCTM wedi cytuno ar y broses sydd i'w chynnal i symud ymlaen â'r mater hwn, ac mae'r Cadeirydd wedi cytuno ar hyn.<br>• **CPCh26/001** - Uned Ddiogel Canolig Clinig Caswell. Rhannwyd camau gweithredu heb eu cymryd â BIPBA ar 1 Mai 2026.<br>• **CPCh26/002** - Mae cydweithwyr o fewn tîm perfformiad y CBC yn gweithio gyda WAST i sicrhau bod yr wybodaeth ofynnol yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad perfformiad integredig wrth symud ymlaen.<br>• **CPCh26/011** - Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2026-2027 wedi'i rannu ag aelodau o Is-bwyllgor CPCh.<br><br>**Cytunodd** yr Aelodau fod y camau gweithredu uchod wedi'u cwblhau, ac y dylid eu marcio fel rhai 'Ar gau'.<br><br>**Nododd** yr aelodau fod y camau gweithredu sy'n weddill sy'n ymwneud ag adrodd ar y cynllun blynyddol yn parhau ar agor tan y ceir adborth ar y templed adrodd wedi'i ddiweddaru, gyda'r bwriad o'i gau yn y cyfarfod nesaf. |
| CPCh26/025 | **2.1 Cofrestr Risg Sefydliadol (CRS) CBCGC – Risgiau a Neilltuwyd i'r Is-bwyllgor CPCh**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor adroddiad y Gofrestr Risg Sefydliadol a nododd fod 13 o risgiau ar y gofrestr, ac roedd chwech ohonynt wedi'u neilltuo i'r Is-bwyllgor CPCh. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau sy'n ymwneud ag Ambiwlans, Cardioleg a Niwrowyddoniaeth. Nododd yr Aelodau, er bod y gofrestr yn parhau i fod yn gymharol sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bod gwaith ar y gweill i gryfhau'r rheolaeth ddeinamig o risgiau, lliniariadau a chamau gweithredu.<br><br>Nododd yr Is-bwyllgor fod un risg wedi'i dad-ddwysáu – Risg 77 Comisiynu Capasiti Digonol ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans Brys – gan nodi y byddai'r risg hon yn parhau i gael ei monitro a'i rheoli drwy Gofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth. Roedd un risg newydd wedi'i hychwanegu at y CRS – Risg 96 Cyflawni a Chynaliadwyedd Comisiynu - Capasiti - Gwasanaeth Ambiwlans Brys (EMS) Mwy Diogel, Ansawdd, Gwerthfawr, Integredig a Mwy Cyfartal. Mae hyn yn disodli'r Risg 78 a gynhaliwyd yn flaenorol, sydd bellach ar gau, ac yn disgrifio'n well yr effaith i'r CBCGC o safbwynt y comisiynydd.<br><br>Croesawyd y cyfeiriad a gymerwyd a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i'r dull o reoli risg.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau'r gofrestr risg sefydliadol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ailddisgrifio'r risg ambiwlans newydd. Er bod yr aelodau'n cydnabod y newid tuag at fynegi'r risg gan ganolbwyntio ar y comisiynydd, codwyd pryderon nad oedd y geiriad arfaethedig yn rhoi pwyslais digonol ar ganlyniadau cleifion a niwed posibl i gleifion. Pwysleisiodd yr aelodau, er bod canlyniadau ariannol, enw da, cyfreithiol a rheoleiddiol yn berthnasol i'r CBCGC fel comisiynydd, dylai'r prif naratif adlewyrchu'n glir gomisiynu ar gyfer gwell canlyniadau i gleifion.<br><br>Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod risgiau darparwyr a risgiau comisiynwyr wedi'u cysylltu'n glir, gyda sicrwydd bod darparwyr yn rheoli eu risgiau eu hunain yn weithredol. Trafododd yr aelodau yr angen am sicrwydd parhaus gan ddarparwyr ac am ddisgrifiadau risg i adlewyrchu'r cyfrifoldeb ar y cyd rhwng comisiynwyr a darparwyr. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Cytunwyd y dylid mireinio geiriad y risg ambiwlans cyn ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu ysgogiad CBCGC fel comisiynydd tra'n cadw ffocws clir ar ganlyniadau cleifion.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Adolygu geiriad y disgrifiad risg ambiwlans cyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor, er mwyn sicrhau ei fod yn cydbwyso atebolrwydd y comisiynydd â'r effaith ar ganlyniad cleifion a niwed i gleifion yn briodol – AF a RW.<br><br>Codwyd hefyd y mater o adnoddau a gomisiynwyd at ddibenion penodol yn cael eu defnyddio'n wahanol gan sefydliadau darparwyr, gan nodi nad yw hyn wedi'i ddal o'r blaen yn y gofrestr risg. Cytunodd yr Is-bwyllgor y dylid dogfennu'r agwedd hon yn benodol mewn asesiadau risg yn y dyfodol.<br><br>Yn amodol ar fireinio Risg 96, **penderfynodd** yr aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad.<br>• **Adolygu** a **chraffu** ar y risgiau a neilltuwyd i'r is-bwyllgor ar ran CBCGC; a<br>• **Chymeradwyo'r** Gofrestr Risg Gorfforaethol er mwyn rhoi **sicrwydd** i'r Cyd-bwyllgor ynghylch rheolaeth effeithiol y risgiau. |
| CPCh26/026 | **2.2 Rheoli Risg a Sicrwydd**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor yr Adroddiad Rheoli Risg a Sicrwydd a nododd y gwaith sylweddol a wnaed i ddatblygu dull rheoli risg CBCGC, yn dilyn ymgysylltu ag Aelodau Lleyg, Uwch Dîm Arweinyddiaeth CBCGC, y Cadeirydd a'r Prif Gomisiynydd newydd. Cynghorwyd yr Aelodau fod y dogfennau wedi cael eu hadolygu'n fanwl a bod adborth wedi'i ymgorffori yn y fersiwn a gyflwynwyd i'r Is-bwyllgor.<br><br>Nododd yr Is-bwyllgor, er ei bod yn ofynnol i'r CBCGC ddilyn gweithdrefnau rheoli risg Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) fel corff lletyol, bod y dogfennau arfaethedig wedi'u teilwra i adlewyrchu rôl y CBCGC fel sefydliad comisiynu. Roedd hyn yn cynnwys diwygio terminoleg, meysydd risg a thempledi adrodd gyda'r bwriad o gefnogi perchnogaeth a rheolaeth gliriach ar risg o safbwynt comisiynu.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau'r Weithdrefn Rheoli Risg arfaethedig, Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor, Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a'r Matrics, ynghyd â thempledi adrodd cysylltiedig a risgiau strategol arfaethedig. Nodwyd, yn amodol ar ystyriaeth yr Is-bwyllgor CPCh a'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau, y byddai'r dogfennau'n cael eu rhannu ymlaen llaw gyda Phrif Weithredwyr am sylwadau ac y byddai unrhyw adborth priodol yn cael ei ymgorffori cyn i'r dogfennau gael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ar 21 Gorffennaf 2026 i'w cymeradwyo.<br><br>Croesawodd yr Aelodau eglurder a strwythur y dull arfaethedig a chydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gan y tîm, gan nodi bod y dogfennau yn rhoi fframwaith mwy aeddfed, clir a chadarn ar gyfer rheoli risg o fewn y CBCGC. Cydnabuwyd y byddai'r parodrwydd i dderbyn risg yn gofyn am drafodaeth barhaus ar y cyd gyda Phrif Weithredwyr, Aelodau Lleyg a chydweithwyr Gweithredol, ac y gallai esblygu dros amser.<br><br>Nododd yr Is-bwyllgor fod y fframwaith, y polisi a'r templedi diwygiedig yn darparu cyfatebiaeth strategol cliriach a sicrwydd cryfach o'i gymharu â threfniadau blaenorol. Cefnogodd yr Is-bwyllgor ddatblygiad parhaus y trefniadau rheoli risg a sicrwydd a chytunodd y dylai'r dogfennau fynd trwy'r llwybr ymgysylltu a gynlluniwyd, gydag unrhyw sylwadau pellach yn cael eu hymgorffori cyn eu cymeradwyo'n derfynol gan y Cyd-bwyllgor. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU:**<br>• Rhannu dogfennau rheoli risg a sicrwydd gyda chydweithwyr sy'n Brif Weithredwyr all-lein i gael adborth cyn cyflwyno'r Cyd-bwyllgor - AF<br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Gymeradwyo'r** weithdrefn<br>• **Cymeradwyo'r** JAF a'r adroddad JAF<br>• **Cymeradwyo'r** Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a'r Matrics arfaethedig; a<br>• **Cymeradwyo'r** Risgiau Strategol drafft i'w cynnwys yn adroddiad JAF. |
| CPCh26/027 | **2.3 Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 02 2026-2027**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor Adroddiad Perfformiad Ariannol Mis 2. Y sefyllfa a adroddwyd hyd yma yn y flwyddyn oedd tanwariant o £361k, gyda rhagolwg o fudd diwedd blwyddyn o ychydig o dan £0.5m. Nododd yr adroddiad gyflawniad yn erbyn y cynllun ym Mis 2, gan gydnabod dibynadwyedd cyfyngedig data a'r gwaith rhagweld ar ddechrau'r flwyddyn.<br><br>Nododd yr aelodau fod gwaith pellach ar ddata Mis 3 ar y gweill a bod pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn cynnwys twf mewn gweithgarwch gyda darparwyr GIG Lloegr, yn enwedig cleifion trawsblaniad cost uchel, a chynnydd yn y defnydd o Baricitinib. Nodwyd cyfleoedd posibl mewn gweithgarwch yr Uned Gofal Dwys Babanod Newydd-anedig (NICU)/Uned Gofal Dwys Pediatrig (PICU) ac arbedion iechyd meddwl diogel uchel, yn amodol ar gytundeb contract.<br><br>Trafododd yr Is-bwyllgor ganlyniad y broses gymrodeddu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF). Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau y dylid cynnal penderfyniad y Cyd-bwyllgor mewn perthynas â'r gofyniad arbedion o 2%, gan egluro hefyd y dylai cymrodeddu rhwng sefydliadau GIG Cymru bob amser fod yn opsiwn olaf. Nododd yr aelodau yr angen am gynllunio cydweithredol cynharach a pherthnasoedd cryfach i atal hyn rhag digwydd eto<br><br>Nodwyd y cyd-destun ariannol cenedlaethol, gan gynnwys y diffyg sylweddol ar draws GIG Cymru a disgwyliad LlC y bydd sefydliadau'n cymryd camau ar unwaith i wella sefyllfaoedd ariannol. Nododd yr Is-bwyllgor sefyllfa ariannol Mis 2 a chytunodd y dylid defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer adroddiadau'r Is-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** sefyllfa ariannol ar ddiwedd y mis. |
| CPCh26/028 | **2.4 Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor yr Adroddiad Adolygu Cynaliadwyedd Ariannol, sy'n amlinellu statws presennol mentrau cynilo. Cydnabuwyd y papur fel y cyntaf mewn cyfres o ddiweddariadau i ddarparu tryloywder ar ddyraniadau, cyfleoedd a llithriadau.<br><br>Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cyflymder a thrylwyredd, yn enwedig o ystyried y cyd-destun ariannol cenedlaethol heriol a disgwyliadau partneriaid BI. Tynnwyd sylw at gyfleoedd ym maes iechyd meddwl, gan gynnwys lleihau'r defnydd o welyau yn y sector annibynnol drwy wella'r broses o reoli mynediad, rheoli atgyfeiriadau a rheoli achosion. Nododd yr Aelodau hefyd bwysau a chyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â gweithgarwch darparwyr Gogledd Cymru a Lloegr.<br><br>Cydnabuwyd nad oedd y llif presennol o gynlluniau lle y dylai fod eto, gyda gormod o gynlluniau wedi'u graddio'n goch neu'n oren a dim digon o gynlluniau wedi'u graddio'n wyrdd. Byddai Uwch Dîm Arwain CBCGC yn adolygu'r llif o gynlluniau ar frys ac yn |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | ceisio troi cynlluniau gwyrdd yn fuddion sy'n rhyddhau arian parod, nodi cyfleoedd pellach a chryfhau'r rheolaeth dros reolaethau gwariant.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Adolygu ar frys y llif o gynlluniau gwerth, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd cyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf, gan ganolbwyntio ar droi cynlluniau gwyrdd yn arbedion y gellir eu cyflawni, symud cynlluniau oren a choch yn eu blaenau, a chryfhau rheolaethau gwariant – JB/ST i arwain.<br><br>**Penderfynodd** yr aelodau:<br>• **Nodi'r** cynnydd a wnaed gan y Rhaglen Gwerth, Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd.<br>• **Nodi'r** dyraniadau sydd wedi'u hymrwymo hyd yma ar gyfer cyllid gweithgarwch a datblygu ar gyfer 2026-27. |
| CPCh26/029 | **2.5 Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC – Mis 2 2026-2027**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor yr Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol ar gyfer Mis 2. Cytunwyd y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar draws ardaloedd comisiynu, gan gydnabod y gall setiau data gwahanol fod ar gael ar wahanol adegau yn y cylch adrodd.<br><br>Nododd yr aelodau fod gwasanaethau newydd-anedig wedi cael eu dad-ddwysáu i Lefel 0 yn dilyn cyfarfod sicrhau ansawdd mis Mai. Roedd rhestrau aros llawdriniaeth blastig yn parhau i fod angen eu monitro'n agos, gyda phryder am doriadau posibl yn y dyfodol. Roedd gweithgarwch cleifion allanol yn is na'r flwyddyn flaenorol mewn sawl arbenigedd, yn enwedig llawdriniaethau'r galon a llawdriniaethau bediatrig.<br><br>Trafododd yr Is-bwyllgor amseroedd aros hir a nododd nad oedd unrhyw amseroedd aros o 104 wythnos ar hyn o bryd, fodd bynnag, gofynnwyd am ragolygon ymlaen llaw i nodi risgiau yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod Cyllid Gofal wedi'i Gynllunio gan Lywodraeth Cymru a gyfeiriwyd at Fyrddau Iechyd yn cael ei ddefnyddio'n briodol lle'r effeithiwyd ar wasanaethau a gomisiynir gan CBCGC. Cynghorwyd y byddai'n ofynnol i Fyrddau Iechyd wella effeithlonrwydd theatr cyn y gellid cael gafael ar gyllid ychwanegol. Nodwyd bod llawdriniaeth y galon yn BIPCAF wedi cael ei ddwysáu i Lefel 2 ers dyddiad cau'r adroddiad oherwydd rhestr aros gynyddol ac oedi wrth dderbyn cynllun gweithredu.<br><br>Cododd yr aelodau bryderon ynghylch adrodd ar berfformiad ambiwlansys o dan y model clinigol newydd, gan gynnwys y ddibyniaeth ar fesurau canolrifol a'r angen am fewnwelediad cliriach i allanolion, perfformiad y 90fed canradd, amseroedd trosglwyddo, amseroedd ymateb a mesurau canlyniadau. Cytunwyd y byddai siartiau rheoli prosesau ystadegol (SPC) ychwanegol a mesurau mewnbwn, allbwn a chanlyniadau mwy ystyrlon yn cael eu datblygu. Byddai codio lliw metrigau Gwasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau bod dangosyddion coch a gwyrdd yn adlewyrchu a oedd symudiadau'n gadarnhaol neu'n negyddol.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Data perfformiad wedi'i ddiweddaru i'w ymgorffori mewn fersiynau yn y dyfodol o'r adroddiad i gynnwys:<br>    o Cynnwys rhagolwg i'r dyfodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhestrau aros, yn enwedig o ran arosiadau o 104 wythnos, a chynnwys adrodd penodol a chynlluniau lliniaru yn Adroddiad y Prif Gomisiynydd ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor – MW.<br>    o Ychwanegu siartiau SPC a mesurau canlyniadau at yr adroddiad ar berfformiad ambiwlansys – RW. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | ○ Diweddaru tabl metrigau NEPTS i sicrhau bod y cod lliw yn adlewyrchu'n gywir a yw newidiadau'n gadarnhaol neu'n negyddol – RW<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** wybodaeth yn yr Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol. |
| CPCh26/030 | **2.6 Cynllun CBCGC 2026-27:**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor Ddiweddariad Cyflawni Cynllun Blynyddol CBCGC a oedd yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth strategol, adolygiadau gwasanaeth, ymchwiliadau manwl a phrosiectau galluogi. Nododd yr aelodau fod rhai o'r sgoriau hyder o ran cyflawni yn ganolig, yn bennaf oherwydd argaeledd data, gallu dadansoddol a chapasiti. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio ar y cyd â Byrddau Iechyd, noddwyr Prif Weithredwyr a chydweithwyr y Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol (CCLG).<br><br>Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol am y cynllun, a oedd wedi'i chyflwyno erbyn y dyddiad cau ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd arwyddion anffurfiol yn awgrymu bod y cynllun yn debygol o gael ei gefnogi, er bod disgwyl cadarnhad ffurfiol.<br><br>Pwysleisiwyd yr angen am dystiolaeth glinigol gadarn ac ymgysylltiad clinigol i gefnogi penderfyniadau dilys, yn enwedig mewn perthynas â'r adolygiadau strategol. Cododd yr Aelodau y mater o wneud penderfyniadau blaenoriaethu anodd ynghylch pa wasanaethau y gellir eu fforddio, nid dim ond yr hyn sy'n optimaidd yn glinigol, gan nodi'r angen i gydbwyso canlyniadau cleifion â fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol bresennol, a chydnabod y gallai fod angen oedi neu ailystyried rhai mentrau sydd wedi'u cynllunio.<br><br>Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod y CBCGC yn datblygu ffordd newydd o weithio ac y byddai ymgysylltu â'r BI yn hanfodol, er mwyn sicrhau cefnogaeth ddadansoddol ac i sicrhau perchnogaeth ar y cyd o benderfyniadau anodd. Trafododd yr aelodau uwchsgilio timau mewnol a defnyddio adnoddau'r BI i fynd i'r afael â bylchau capasiti.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** cynnydd yn erbyn meysydd blaenoriaeth strategol Cynllun Blynyddol CBCGC 2026-27 ar ddiwedd mis Mai 2026<br>• **Cymryd sicrwydd** bod y cyflawni wedi dechrau ac ar y trywydd iawn<br>• **Nodi'r** sefyllfa RAG presennol ac absenoldeb materion uwchgyfeirio materol<br>• **Nodi'r** hyder cyflawni ar gyfer pob maes blaenoriaeth strategol gan nodi lliniaru risgiau a dibyniaeth allweddol<br>• **Nodi** y bydd y sefyllfa ffurfiol ar ddiwedd Chwarter 1 sy'n manylu ar gynnydd yn erbyn pob maes o'r Cynllun Blynyddol yn cael ei chynnwys yn Adroddiad Perfformiad Integredig y CBCGC. |
| CPCh26/031 | **2.7 Datblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2027-30 CBCGC**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor ddiweddariad ar ddatblygiad cynnar Cynllun Tymor Canolig Integredig y CBCGC 2027-30. Cyflwynwyd amserlen lefel uchel, ac roedd gwaith wedi dechrau ar fwriadau comisiynu a dull diwygiedig o flaenoriaethu'n glinigol. Byddai'r broses wedi'i gwreiddio mewn iechyd poblogaeth, canlyniadau, gwerth ac asesiad seiliedig ar dystiolaeth ar draws yr holl wasanaethau a gomisiynwyd.<br><br>Croesawodd yr aelodau ymgysylltiad cynnar â Byrddau Iechyd a chydweithwyr CCLG, gan nodi gwersi o'r cylch cynllunio flaenorol a'r angen i osgoi anghytundeb yn y cyfnod hwyr. Trafododd yr Is-bwyllgor yr her o gydbwyso cyflawni'r cynllun blynyddol presennol â pharatoi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'r angen i gadw'r broses yn glir ei chanolbwynt ac yn gymesur. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Nodwyd y byddai'r strategaeth glinigol genedlaethol yn ddibyniaeth bwysig, er bod amserlenni'n awgrymu efallai na fydd ar gael mewn pryd i lywio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn llawn. Roedd gan y CBCGC gynrychiolaeth ar y grŵp llywio cenedlaethol bellach, a fyddai'n cefnogi cyfatebiaeth â chyfeiriad cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Trafododd yr aelodau hefyd gyfleoedd i ystyried a allai rhai gwasanaethau a oedd yn cael eu comisiynu ar hyn o bryd gan Fyrddau Iechyd gael eu comisiynu'n fwy priodol trwy'r CBCGC, ac i'r gwrthwyneb.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• Gymeradwyo'r broses a amlinellir ar gyfer datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2027-30 fel y nodir yn yr adroddiad. |
| CPCh26/032 | **2.8 Datblygu Strategaeth CBCGC**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor ddiweddariad llafar ar ddatblygiad y strategaeth, gan nodi y byddai'n cael ei lywio gan adolygiadau strategol y CBCGC, y gwaith dadansoddi manwl, y Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd a, lle bo'n bosibl, cyfatebiaeth â'r strategaeth glinigol genedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Ailadroddwyd pwysigrwydd rôl CBCGC mewn gofod comisiynu cydweithredol unwaith i Gymru. |
| CPCh26/033 | **3.1 Adolygiad Blynyddol o Adborth Effeithiolrwydd yr Is-Bwyllgor**<br>Derbyniodd yr Is-bwyllgor ddiweddariad llafar ar yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y pwyllgor. Roedd adborth wedi'i rannu â chadeiryddion y pwyllgorau, a byddai'r camau gweithredu arfaethedig yn cael eu datblygu i'w cynnwys mewn cynllun gweithredu i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor. |
| CPCh26/034 | **4.1 Unrhyw Fater Arall**<br>Codwyd y canlynol:<br>• **Asesiad o Afael a Rheolaeth Ariannol:** Derbyniodd yr Is-bwyllgor ddiweddariad ar y gwaith rheolaeth ariannol gadarn y gofynnwyd amdano gan Gyllid a Perfformiad y GIG a Chyfarwyddwyr Cyllid Llywodraeth Cymru. Roedd hunanasesiad wedi'i gwblhau yn erbyn elfennau perthnasol y fframwaith arfer gorau, a byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i ddiffinio gafael a rheolaeth dda ar gyfer y CBCGC fel sefydliad comisiynu sy'n aeddfedu. Cytunwyd y dylid adrodd ar ddiweddariadau yn y dyfodol trwy'r Is-bwyllgor, gydag adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd Cyrff Cynnal BIPCTM.<br>• **Cyfarfod Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig LlC:** Nododd yr Aelodau hefyd fod cyfarfod diweddar IQPD gyda LlC wedi bod yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol. Roedd sleidiau wedi cael eu rhannu gydag aelodau er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau dilynol. |
| CPCh26/035 | **4.2 Blaengynllun Busnes 2026-2027**<br>Nodwyd y Blaengynllun Busnes. Byddai'n cael ei ddiweddaru i gynnwys adroddiadau gafael a rheolaeth yn y dyfodol ar bwynt priodol. |
| CPCh26/036 | **4.3 Eitemau i'w gohirio/eu huwchgyfeirio i'r Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.**<br>Byddai'r Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys mireinio'r risg ambiwlansys, y diweddariad ar restrau aros a risgiau aros hir, a'r dull o ddefnyddio'r data perfformiad diweddaraf sydd ar gael ar gyfer adrodd ar y Cyd-bwyllgor. Roedd yr aelodau'n cefnogi adrodd perfformiad wedi'i ddiweddaru i'r Cyd-bwyllgor, ar yr amod bod y data wedi'i adolygu gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth y CBCGC. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| CPCh26/037 | **4.4 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Daeth y cyfarfod i ben am 15:50<br>**Nodwyd** bod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 27 Awst 2026. |